Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.02.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYLLID: Cynllun Benthyciad Busnes Gwyrdd

Mae'r Cynllun Benthyciad Busnes Gwyrdd, a gyflwynir gan Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru, yn darparu pecyn o gymorth i fusnesau Cymru sy'n helpu i leihau allyriadau carbon, gan alluogi busnesau i arbed ar filiau ynni yn y dyfodol, gan gyfuno mynediad at gymorth ymgynghorol wedi'i ariannu'n rhannol ac wedi'i ariannu'n llawn, cyfraddau llog sefydlog gostyngol a chyfalaf amyneddgar. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://developmentbank.wales/cy/cynllun-benthyciadau-busnes-gwyrdd

# NEWYDDION: Cynllun peilot 'Arosfan' Cyngor Gwynedd – safleoedd dros nos i gartrefi modur

Wedi sicrhau cyllid drwy raglen Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru (Mai 2022), mae Cyngor Gwynedd yn gobeithio treialu pum safle steil 'aire' dros nos ar gyfer cartrefi modur, fel rhan o brosiect i atal ymhellach y problemau amgylcheddol a chymdeithasol a achosir gan wersylla anghyfreithlon. Bydd prosiect Arosfan yn cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd yng Nghaernarfon, Llanberis, Cricieth, Pwllheli ag Abermaw, gan ddefnyddio meysydd parcio sefydledig yn ymyl canol trefi i annog gwariant lleol. I ddarllen datganiad Cyngor Gwynedd yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd14Chwe2023

Mae copi o'r adroddiad ar gartrefi modur yng Ngwynedd a gyflwynwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Tachwedd 2021 ar gael ar:

https://bit.ly/CartrefiModurMedi2021

# CYFLE: Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) Canolfan Ragoriaeth – cystadleuaeth agored

Mae Canolfan Ragoriaeth SBRI yn cael ei chynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw datrys heriau/anghenion heb eu diwallu ym maes iechyd trwy gynnal cystadlaethau gan wahodd diwydiant i weithio gyda nhw. Mae'r gystadleuaeth 'Newid y Ffordd yr Ydym yn Darparu Gofal mewn Argyfwng' ar agor tan 17 Mawrth 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://sbriwales.co.uk/cy/cystadlaethaur-diwydiant/

Bydd digwyddiad ar-lein i helpu cwblhau ceisiadau yn cael ei gynnal ar 23 Chwefror 2023 (10:00am-12:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3Eadp2j

# AROLWG: Ymchwil i Ddeall Agweddau Cyflogwyr tuag at Iechyd a Lles yn y Gweithle

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ddiddordeb clywed gan gyflogwyr am eu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng iechyd a lles gweithiwr a gwaith, a'r anghenion cysylltiedig. I gymryd rhan yn yr arolwg byr yma, ewch i:

https://online.ors.org.uk/landing/92

# GWOBRAU: Cyfres Genedlaethol Gwobrau StartUp

Mae'r Gwobrau StartUp yn cydnabod cyflawniadau unigolion sydd wedi cael syniad gwych, wedi sylwi ar y cyfle ac wedi mentro lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd. Mae ceisiadau yn cau ar 24 Chwefror 2023 – mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

http://bit.ly/3Ex85Xh

# GWOBRAU: Gwobrau Bach y DU 2023

Mae ceisiadau ar agor hyd at 28 Chwefror 2023 ar gyfer Gwobrau Bach y DU 2023, ar agor i fusnesau bach ysbrydoledig gyda thystiolaeth o ymgysylltu cadarn â'r gymuned a pherfformiad effeithiol fel busnes parhaus. Mae gwybodaeth am y categorïau a chanllawiau i ymgeiswyr ar gael ar:

https://thesmallawards.uk/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru